

CYNGOR SIR FYNWY

Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy Dydd Llun, 20fed Ionawr, 2025, 2.00 pm

CYNGHORWYR YN BRESENNOL: Cyngorydd Sirol: Martyn Groucutt, David Jones, Jayne McKenna, Phil Murphy, Laura Wright, M. Cross, R. Clark

SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Nikki Wellington	Rheolwr Cyllid
Louise Connolly	Accounting Technician Trainee
Wendy Barnard	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

YMDDIHEURIADAU:

Cyngorydd Sirol: John Crook, C. Andrews

H. Morgan, M. Rees, P. James

1. Datganiadau o Fuddiant.

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

2. Cadarnhau a llofnodi cofnodion cyfarfod blaenorol Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy.

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod cywir.

3. Adroddiad Blynyddol Cronfa Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31ain Mawrth 2024 ac Adroddiad Archwiliad Annibynnol o'r Datganiad Ariannol - Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy.

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Cymorth y cyfrifon terfynol a'r archwiliad annibynnol ar gyfer diwedd y flwyddyn 2024.

Penderfynwyd cymeradwyo'r cyfrifon.

4. Ystyried a ddylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes ganlynol yn unol ag Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd, ar y sail ei bod yn ôl pob tebyg yn cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf. (Amgaeir barn y Swyddog Priodol).

Gwnaethom wahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r eitem fusnes ganlynol yn unol ag Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd, ar y sail ei fod yn cynnwys datgelu tebygol gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

CYNGOR SIR FYNWY

Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy Dydd Llun, 20fed Ionawr, 2025, 2.00 pm

5. Ystyried adroddiad gan y Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc ynghylch ceisiadau a dderbyniwyd yn erbyn Cronfa'r Ymddiriedolaeth ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2024/25.

Ystyriwyd 5 cais a dderbyniwyd yn erbyn Cronfa'r Ymddiriedolaeth, a gyflwynwyd ar ran y Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc.

Penderfynodd yr Ymddiriedolaeth:

(i) rhoi dyfarniadau i dri o'r ymgeiswyr, yn amodol ar dderbyn derbynebau a thystiolaeth briodol.

(ii) ni dderbyniodd dau gais gyllid yng nghyfarfod heddiw. Gofynnwyd am gyngor cyfreithiol ynghylch cymhwysedd un cais. Pan gaiff ei dderbyn, gwneir penderfyniad yn y cyfarfod nesaf. Byddai swyddogion yn cysylltu â'r ymgeisydd i ofyn am dderbynebau. Pan dderbynnir y derbynebau, bydd y ceisiadau'n cael eu hailgyflwyno i gyfarfod yn y dyfodol o'r Ymddiriedolaeth i'w hystyried.

(iii) cyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf yr Ymddiriedolaeth yn amlinellu polisi trafndiaeth gyhoeddus yr Awdurdod a chyfraddau ceiniogau y filltir, gyda'r bwriad o gynorthwyo myfyrwyr wrth wneud cais am gyllid yn erbyn yr Ymddiriedolaeth mewn perthynas â'u costau teithio i'r Coleg.

6. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.